# Y Pwyllgor Archwilio

## AC(2)-02-06 (p6)

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch "Cyllid GIG Cymru 2005" Adroddiad y Pwyllgor (2) 07-05

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad. Rydym yn croesawu'r hyn y mae wedi'i ganfod ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r pum argymhelliad sydd ynddo.

#### Argymhellion

Nid yw’r oedi yn y broses o gytuno ar y Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd yn foddhaol ac ni ddylai ddigwydd eto. Dylai Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) roi blaenoriaeth i gytuno ar Gynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd a’i gymeradwyo er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol eto. Rydym yn argymell bod pob ymdrech bosibl yn cael ei gwneud i gytuno ar ac i gymeradwyo Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd cadarn ar gyfer y sefydliad hwn cyn gynted ag y bo modd a’i fod yn cael ei fonitro’n agos yn ystod oes y Cynllun. Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pob cymorth posibl i Gomisiwn Iechyd Cymru i’w alluogi i fynd i’r afael â’r rhesymau dros ei ddiffygion ariannol a’u hatal rhag digwydd eto.

#### Derbyn.

Cytunwyd ar Raglen Newid Strategol ac Effeithlonrwydd ym mis Gorffennaf 2005, ond nid oedd yn ddigon cadarn. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfarfod yn rheolaidd â Chomisiwn Iechyd Cymru er mwyn datblygu Rhaglen Newid Strategol ac Effeithlonrwydd arall a fydd yn ddigon cadarn i gael ei gymeradwyo. Cafodd fersiwn diweddaraf y cynllun ei gyflwyno ym mis Tachwedd. Mae lefel o risg ariannol yn y fersiwn hwn na ellir ei reoli ar hyn o bryd yng nghyllideb gyffredinol y prif grp gwariant ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Adran wedi gofyn i Gomisiwn Iechyd Cymru fynd ati yn ystod mis Ionawr i adolygu'r cynllun yng nghyd-destun ei ddyraniad refeniw ar gyfer 2006-07, a gafodd ei gyhoeddi ar 16 Rhagfyr. Bwriedir cynnal cyfarfod arall ddiwedd mis Ionawr 2006, a gobeithir y bydd modd cymeradwyo'r cynllun bryd hynny.

Mae'r Adran wedi cydnabod bod angen cynnig cymorth i Gomisiwn Iechyd Cymru er mwyn ei helpu i ddatrys ei broblemau ariannol sylfaenol. Bydd tîm o'r Uned Cyflawni a Chefnogi yn gweithio gyda Chomisiwn Iechyd Cymru i'w helpu i nodi'r camau y mae angen eu cymryd o dan y Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd er mwyn adfer y sefyllfa.

2. Mae amrywiad sylweddol yn y cyllid ychwanegol a ddarperir o dan y Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd i gyrff yn rhanbarth y Canolbarth a’r Gorllewin a rhanbarth y De-ddwyrain. Mae nifer o hen broblemau wedi cyfrannu at yr amrywiadau hyn ac, o ganlyniad, cawsant effaith ar gydbwysedd ariannol sefydliadau y GIG, yn enwedig y rhieni a nodir yng nghyswllt Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin. Rydym yn argymell bod camau mwy radical ac arloesol yn cael eu hystyried a’u hybu yng nghyd-destun cynlluniau gweithredu Wanless er mwyn i gyrff y GIG ddarparu gwasanaethau o safon dderbyniol i gleifion o fewn cyfyngiadau’r cyllid a ddyrennir.

**Derbyn.**

Mae nifer sylweddol o ddatblygiadau arfaethedig o dan y strategaeth Cynllun Oes a fydd yn fodd i gyflwyno camau mwy radical ac arloesol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n bod ers tro mewn rhai mannau o Gymru. Dyma'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol o safbwynt rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin (gan gynnwys Ymddiriedolaeth Sir Gaerfyrddin) a Rhanbarth y De-ddwyrain:

- · Cyhoeddodd Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol y Canolbarth a'r Gorllewin "The case for change" ar 20 Hydref. Aed ati yn y ddogfen i fynd i'r afael â'r angen i newid a sut y bydd defnyddio'r dechnoleg newydd ac ystod ehangach o wasanaethau uwch eu safon yn nes adref yn fodd i liniaru'r pwysau ar y sector acíwt.
- · Mae'r Adolygiad o Wasanaethau Acíwt wedi bod yn adolygu'r gwasanaethau Gofal Acíwt Eilaidd sy'n cael eu darparu yn y rhanbarth, a bwriedir cynnal digwyddiadau lleol ym mis Ionawr 2006 lle y bydd y cyhoedd a staff y GIG yn gallu gwyntyllu materion a chyflwyno sylwadau ynghylch sut i fynd ati i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.
- · Bydd y tîm prosiect yn gyfrifol wedyn am ddatblygu a chostio amryfal ddewisiadau at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y gwanwyn 2006. Bwriedir i'r gwelliannau i'r gwasanaethau ddod â manteision clinigol ac ariannol cynaliadwy i'r rhanbarth.
- · Yn unol â'r cyfeiriad strategol sy'n cael ei amlinellu yn y Cynllun Oes, ac yn unol hefyd â chyfeiriad cyffredinol yr adolygiad o Wasanaethau Acíwt Rhanbarthol, mae Sir Gaerfyrddin wedi datblygu cynllun adfer o dan arweiniad comisiynydd a fydd yn sicrhau'r gallu gofynnol o safbwynt darparu gwasanaethau, a hynny ar sail y modelau gofal gorau. Mae adolygiad o ysbytai cymunedol yn mynd rhagddo yn Sir Gaerfyrddin hefyd. Bydd yn argymell bod gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol yn cael eu had-drefnu a bod model gofal newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn seiliedig ar wasanaethau adsefydlu, gofal seibiant a mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal.
- · Mae swyddfa ranbarthol y De a'r Dwyrain, ar y cyd â holl sefydliadau'r GIG yn yr ardal, yn cynorthwyo gydag adolygiadau o wasanaethau clinigol yng Ngwent. Rhagwelir y bydd canlyniadau'r adolygiadau hyn ar gael ym mis Ebrill 2006, a byddant yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n bod ers tro.

3. Mae gallu sefydliadau y GIG i ragweld a dadansoddi eu canlyniadau’n fanwl gywir yn hanfodol os ydynt am lwyddo i reoli arian yn effeithiol, ac os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru am lwyddo i'w monitro'n effeithiol. Rydym yn argymell bod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gydag

ymddiriedolaethau unigol y GIG a byrddau iechyd lleol unigol i sicrhau cysondeb yn y ffordd y maent yn paratoi eu rhagolygon fel bod modd eu cymharu ac fel bod arfer da’n cael ei rannu i'r holl sefydliadau.

**Derbyn.**

Mae pob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Lleol yn anfon datganiadau misol, cyson eu diwyg, am eu perfformiad ariannol (sy'n cynnwys eu rhagolygon) i Swyddfeydd Rhanbarthol y Cynulliad.

Mae'r amgylchiadau a'r rhagdybiaethau manwl a all effeithio ar ragolygon Byrddau Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaethau unigol yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau yn lleol. Mae Swyddfeydd Rhanbarthol y Cynulliad yn cydweithio'n agos iawn â'u Hymddiriedolaethau lleol a'u Byrddau Iechyd Lleol i herio'r rhagolygon y maent yn eu rhagdybio. Lle bo modd, mae pob sefydliad yn y GIG yn cael gwybod am yr holl ragdybiaethau cyson a'r holl arferion da y gellir eu rhannu, a hynny drwy lythyrau rheolaidd oddi wrth y Rhanbarthau ynghylch monitro datganiadau, drwy lythyrau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion technegol, a thrwy gylchlythyrau Iechyd Cymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn cydweithio â holl sefydliadau'r GIG drwy is-grwpiau technegol er mwyn adolygu'r canllawiau hyn ac er mwyn mabwysiadu'r arferion gorau a welir yn genedlaethol (e.e. y canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd gan y Gymdeithas Rheolaeth Ariannol ym maes Iechyd ynghylch sut i baratoi rhagolygon). Bydd y dull hwn o weithredu yn cael ei fireinio ymhellach mewn canllawiau manwl ar fonitro a fydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2006.

4. Y cerdyn sgorio cytbwys yw'r ffordd orau o asesu perfformiad sefydliadau y GIG yn gyson ac yn dryloyw ar draws Cymru, o feincnodi sefydliadau gyda chyrff cyfatebol ac i leihau’r baich o gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer sefydliadau archwilio eraill. Rydym yn argymell bod y cerdyn sgorio cytbwys yn cael ei gwblhau gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn medru ei ehangu'n ddi-oed i holl gyrff y GIG, gan gynnwys Comisiwn Iechyd Cymru os yw hynny’n briodol, ynghyd â chanllawiau priodol ar gyfer ei ddefnyddio.

**Derbyn**

Mae'r Cerdyn Sgorio Cytbwys wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus ym mhob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, ac yn yr Ymddiriedolaeth Ambwilans. Mae tri cherdyn sgorio cenedlaethol wedi'u cyflwyno a'u rhoi ar waith ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG, y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru. Mae pob sefydliad iechyd yn defnyddio'r cerdyn sgorio perthnasol wrth baratoi'r adroddiadau y maent yn eu hanfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff yr wybodaeth ar y cardiau sgorio chwarterol ei chyfuno er mwyn paratoi cerdyn sgorio cenedlaethol, fel y gwelir yn adroddiad 2004 / 2005. Caiff canllawiau eu cyhoeddi bob blwyddyn, a chânt eu diwygio yn unol â thargedau y cytunwyd arnynt ar gyfer y Fframwaith Strategol ac Ariannol.

Y Cyfarwyddwr Perfformiad a Gweithrediadau sy'n gyfrifol am ddatblygu cerdyn sgorio cytbwys i'w

ddefnyddio gan Gomisiwn Iechyd Cymru, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn defnyddio cerdyn sgorio cytbwys ar hyn o bryd i roi adroddiad am ei berfformiad ef o'i gymharu â'r targedau yn y Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid blynyddol. Mae Bwrdd Comisiwn Iechyd Cymru a'r Gyfarwyddiaeth Perfformiad a Gweithrediadau yn cael cerdyn sgorio chwarterol i'w helpu i fonitro a rheoli perfformiad. Bydd y cerdyn sgorio yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn cynnwys ystod ehangach o ffactorau sy'n hanfodol i lwyddiant wrth ddarparu gwasanaethau.

5. Bydd y newidiadau sydd ar y gweill o ganlyniad i Adroddiad Wanless yn cymryd cryn dipyn o amser i’w cyflawni a bydd angen cymryd camau arloesol, gan gynnwys creu partneriaethau â darparwyr gwasanaeth eraill, y cyhoedd, ac ad-drefnu gwasanaethau. Rydym yn argymell, unwaith y derbynnir y cynigion i ail-gyflunio, fod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn paratoi amserlenni manwl ar gyfer gweithredu a monitro’r holl gamau sydd i’w cymryd fel ymateb i Adroddiad Wanless a’i bod yn eu dosbarthu'n eang.

Derbyn. Er bod llawer o'r gwaith a oedd yn deillio o adroddiad Wanless wedi'i gwblhau, ni welwyd cymaint o welliant â'r disgwyl mewn tri maes penodol - adolygu gwasanaethau iechyd meddwl, sicrhau bod yr egwyddor o gynnwys pobl wrth ddarparu gwasanaethau yn ymwreiddio, a'r prosiect i ailgynllunio'r gweithlu.

Y Cynllun Oes a'r papur cyfarwyddyd ategol ar ofal cymdeithasol, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, yw'r ymateb i adolygiad Wanless, ac wrth fonitro a gwerthuso, dylid canolbwyntio bellach ar roi'r cynlluniau hynny ar waith. Ym mis Mawrth 2006, bwriedir cyhoeddi dogfen a fydd, o bosibl, yn dwyn y teitl Cynllun Cyflawni, ac a fydd yn amlinellu'r ffordd ymlaen. Bydd yn cynnwys canlyniadau'r gwaith a wnaed ar ailgyflunio, a bydd yn gweithredu argymhelliad y Pwyllgor.